Catalydd Cymru: Ehangu Gorwelion Canllawiau Ymgeisio i Gyfranogwyr Hyfforddiant

CYFLWYNIAD

Yn dilyn ymlaen o brosiect cyfredol Catalydd Cymru: Treftadaeth Wydn, mae CGGC wedi derbyn £346,500 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i gyflwyno prosiect tair blynedd, sy'n cael ei gynnal rhwng **Gorffennaf 2021 a Mai 2024**.

Prosiect Cymru gyfan yw **Catalydd Cymru: Ehangu Gorwelion** sy'n ceisio helpu mudiadau treftadaeth micro, bach a chanolig neu fudiadau sy'n ymgymryd â phrosiect treftadaeth i ddod yn fwy gwydn a chynaliadwy drwy ehangu eu ffrydiau incwm a chyrraedd cynulleidfaoedd a phobl newydd (staff / gwirfoddolwyr / aelodau bwrdd).

Caiff ei arwain gan CGGC mewn partneriaeth â chwmni Cwmpas, a elwid yn Ganolfan Cydweithredol Cymru cyn hyn.

Gan ddysgu o brosiectau blaenorol Catalydd Cymru, bydd Ehangu Gorwelion yn parhau i gynnig hyfforddiant trylwyr i fudiadau treftadaeth, a mudiadau sy'n cynnal prosiectau treftadaeth yng Nghymru ar bynciau a fydd yn eu helpu i wella eu gwydnwch a'u gallu i ymdrin â newidiadau i'r amgylchedd y maen nhw'n byw ynddo (er enghraifft, yr argyfwng costau byw presennol).

Bydd y prosiect yn darparu **4 diwrnod** o **gymorth hyfforddiant am ddim** dros gyfnod o hyd at **wyth mis** i oddeutu **35 o fudiadau treftadaeth neu fudiadau sy'n cynnal prosiectau treftadaeth. Hyd yma, mae 20 o fudiadau wedi gwneud cais am gymorth hyfforddiant.**

Fersiwn 6 23/5/2023

Bydd rhannau eraill o'r prosiect yn cynnwys:

Rhaglen ddysgu a gyflwynir gan gwmni Cwmpas/Academi Mentrau Cymdeithasol sy'n cynnwys pynciau fel Arweinyddiaeth Flaengar, Ailfeddwl Ffrydiau Incwm a dangos effaith gymdeithasol;

Hyfforddiant ychwanegol a gyflwynir gan CGGC;

CYMHWYSEDD

I fod yn gymwys am gymorth hyfforddiant gan Gatalydd Cymru, rhaid i fudiadau:

- Fod â dibenion elusennol. Mae mudiadau cymwys yn cynnwys: Grwpiau cymunedol (a gyfansoddwyd), elusennau cofrestredig, e.e. Ymddiriedolaethau, Mudiadau Corfforedig Elusennol (CIOs), Cwmnïau Buddiannau Cymunedol (CICs) a Chymdeithasau Budd Cymunedol. Noder: Rhaid i CICs fod yn gyfyngedig trwy warant i fod yn gymwys.

- Cael o leiaf tri ymddiriedolwr neu gyfarwyddwr nad ydynt yn perthyn, yn unol ag arferion gorau a gofynion y Comisiwn Elusennau.

- Canolbwyntio ar un neu ragor o'r meysydd Treftadaeth canlynol:

  Adeiladau Hanesyddol* a Henebion

  Treftadaeth Gymunedol e.e. prosiect sy'n canolbwyntio ar ardal leol er mwyn gwella/adfer/dehongli'r amgylchedd naturiol neu adeiledig

  Diwylliannau ac Atgofion e.e. dathlu diwylliannau amrywiol drwy brosiectau celfyddydol/hanes llafar

  Tirweddau a Threftadaeth Naturiol e.e. dathlu diwylliannau amrywiol drwy brosiectau celfyddydol/hanes llafar

  Diwydiannol, Morol a Thrafnidiaeth

Casgliadau (gan gynnwys Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifdai)

*Noder, nid yw gweithio mewn adeilad rhestredig yn unig yn bodloni'r meini prawf – byddai angen i'r mudiad fod yn gwau treftadaeth yr adeilad i mewn i'w gweithgareddau bob dydd.

- Bod yn fudiad micro, bach neu ganolig / mudiad sy'n cynnal prosiect treftadaeth. Diffinnir y mudiadau hyn fel a ganlyn:

  Mudiadau micro – llai na £10,000 o incwm

  Mudiadau bach – incwm rhwng £10,000 a £100,000

  Mudiadau canolig – incwm rhwng £100,000 ac £1 miliwn

  Mae mudiadau ag incwm anghyfyngedig o hyd at £1miliwn yn gymwys i wneud cais.

- Cael yr holl fudiad i gytuno i ymrwymo'r amser sydd ei angen i ymgymryd â'r hyfforddiant a'r gwaith cysylltiedig. I helpu i ddangos hyn, mae angen i fanylion cyswllt cynrychiolwyr o'r bwrdd ymddiriedolwyr a'r tîm staff (fel y bo'n briodol) gael eu nodi ar y ffurflen gais.

- Dylai un o'r cynrychiolwyr hyn allu ymrwymo i fynychu rhaglen undydd ar **Ddatblygu Meddylfryd Medrus ar 6 Gorffennaf 2023**. Bydd y rhaglen yn cael ei chynnal ar-lein gan ddefnyddio Zoom.

- Nid yw Awdurdodau Lleol yn gymwys i ymgeisio ar eu pennau eu hunain, ond gallant wneud cais fel rhan o bartneriaeth â mudiad elusennol (fel y rhestrwyd isod); er enghraifft, lle mae Awdurdod Lleol yn cynorthwyo elusen gofrestredig neu grŵp gwirfoddol a gyfansoddwyd i ymgymryd â'r gwaith o reoli safle treftadaeth.

GWNEUD CAIS AM GYMORTH HYFFORDDIANT

Os yw'r mudiadau sy'n ymgeisio yn bodloni'r meini prawf hyn, bydd angen iddynt fynd drwy adolygiad "gwirio iechyd" o'r prif agweddau ar reoli mudiad elusennol. **Mae hyn yn cymryd tua dwy awr**. (dros ddau gyfarfod ar-lein awr o hyd)

Bydd yr adolygiad hwn yn helpu i hysbysu'r gweithgareddau a fydd yn cael eu gwneud gan y mudiad gyda chymorth hyfforddwyr. Er mwyn helpu mudiadau i ddod yn fwy gwydn, mae Catalydd Cymru yn rhagweld y bydd yn darparu cymorth mewn un neu ragor o'r meysydd canlynol

- Llywodraethu
- Strategaeth a sganio'r gorwel
- Cynllunio Busnes
- Codi arian a Chynhyrchu Incwm (gan gynnwys defnyddio dulliau digidol, e.e. rhoddion ar-lein)
- Marchnata (gan gynnwys defnyddio dulliau digidol)
- Mesur a Rhannu gwerth cymdeithasol ac effaith
- Ymgysylltu ar draws sectorau yn eich ardal leol (dylanwadu)
- Cynyddu ac amrywio cefnogwyr, gwirfoddolwyr a chynulleidfaoedd

Pan fydd y blaenoriaethau hyfforddi wedi'u cytuno, bydd y cais yn cael ei gyflwyno i Grŵp Cynghori'r prosiect am gymeradwyaeth. Unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo, bydd Swyddog Catalydd Cymru yn paru'r mudiad llwyddiannus gyda hyfforddwr profiadol.

CYMORTH SYDD AR GAEL

Bydd mudiadau sy'n cymryd rhan yn gallu cael hyd at **4 diwrnod** o hyfforddiant, a allai gynnwys mwy nag un hyfforddwr yn gweithio gyda'r mudiad ar fwy nag un maes y mae angen ei ddatblygu.

Disgwylir y bydd y cymorth hyfforddiant yn gyfuniad o gyfarfodydd wyneb yn wyneb ac ar-lein, cymorth dros y ffôn ac ar e-bost – beth bynnag sy'n fwyaf priodol i anghenion y mudiad.

Ar ddechrau'r broses hyfforddiant, bydd cynllun gwaith manwl o gymorth yn cael ei gytuno, gan gynnwys set clir o amcanion a llinell amser.

Bydd angen i fudiadau sy'n cymryd rhan allu ymrwymo amser i gwblhau gwaith perthnasol rhwng sesiynau hyfforddiant. Awgrymwn y dylai mudiadau sy'n cymryd rhan fod yn barod i wneud o leiaf yr un faint o waith â'r diwrnodau o hyfforddiant, hynny yw, 4 diwrnod os ydynt yn cael 4 diwrnod o hyfforddiant. Bydd unrhyw amser ychwanegol y bydd ei angen yn amrywio. Yn ein tyb ni, po fwyaf o amser y gall mudiad ei fuddsoddi i'r broses hon, mwya'n y byd y byddant yn elwa.

Bydd hefyd angen i fudiadau sy'n cymryd rhan allu ymrwymo i fynychu'r rhaglen, Arweinyddiaeth Flaengar – 6 Gorffennaf 2023

Gall blaengar gael ei ddiffinio fel:

"Y gallu i feddwl am bethau newydd ac effeithiol i'w gwneud, ynghyd ag awydd i'w cyflawni nhw" [1]

Trwy ddatblygu ffordd o feddwl flaengar, gallwch chi gyfrannu at lefel uwch o wydnwch mudiadau gwirfoddol, er enghraifft, trwy amrywio ffrydiau incwm a chyrraedd cynulleidfaoedd a phobl newydd (staff, gwirfoddolwyr, aelodau bwrdd).

Bydd yr hyfforddiant un ddiwrnod hwn hefyd yn cynnig cyfleoedd i rwydweithio â mudiadau eraill ar y rhaglen hyfforddiant.

Dylid cyfeirio at **Atodiad 1** ar gyfer rhagor o wybodaeth am y rhaglen.

Bydd disgwyl i'r holl fudiadau sy'n cymryd rhan lofnodi a chydymffurfio â Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhyngddyn nhw eu hunain ag CGGC.

YMGEISIWCH NAWR

Bydd ceisiadau yn cael eu hasesu ar sail y cyntaf i'r felin, a'u dyrannu ar sail dreigl, yn unol â'r meini prawf cymhwysedd ond yn rhwym wrth y canlynol:

Bydd o leiaf 12 lle yn cael eu clustnodi i fudiadau lle nad treftadaeth yw'r diben craidd, ond lle maen nhw'n cynnal prosiect treftadaeth neu'n newydd i faes treftadaeth.

[1] Collins Dictionary

Bydd uchafswm o 7 lle yn cael eu dyrannu i fudiadau sydd wedi cael cymorth hyfforddiant o'r blaen o dan brosiectau blaenorol Catalydd Cymru, ond bydd yn rhaid i hyn fod ar gyfer maes hyfforddiant newydd.

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 26 Mehefin 2023

Bydd gan ymgeiswyr llwyddiannus hyd at **chwech mis** i gwblhau'r hyfforddiant o'r amser y cânt eu paru â hyfforddwr

I gofrestru eich diddordeb mewn cymryd rhan ac i gael pecyn ymgeisio, cysylltwch â Siobhan Hayward, Swyddog Catalydd Cymru - shayward@wcva.cymru

CYSYLLTU Â NI

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y cyfle hyfforddi cyn penderfynu ymgeisio neu beidio, cysylltwch â: Siobhan Hayward, Swyddog Catalydd Cymru - shayward@wcva.cymru

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen hyfforddi, tanysgrifiwch i gylchlythyr Catalydd.

Atodiad 1

Datblygu Meddylfryd Mentrus

DYDDIADAU: 6th Gorffennaf 2023 Cyflwynir y rhaglen ar-lein drwy Zoom.

DYSGWYR: Ar gyfer pob lefel o brofiad

BETH Y MAE "BLAENGAR" YN EI OLYGU?

Gall blaengar gael ei ddiffinio fel:"Y gallu i feddwl am bethau newydd ac effeithiol i'w gwneud, ynghyd ag awydd i'w cyflawni nhw" [2]

Trwy ddatblygu ffordd o feddwl flaengar, gallwch chi gyfrannu at lefel uwch o wydnwch mudiadau gwirfoddol, er enghraifft, trwy amrywio ffrydiau incwm a chyrraedd cynulleidfaoedd a phobl newydd (staff, gwirfoddolwyr, aelodau bwrdd).

BETH Y MAE "ARWEINYDDIAETH" YN EI OLYGU?

Nid yw arweinydd da o reidrwydd yn sylfaenydd technoleg newydd, yn Brif Swyddog Gweithredol ar gwmni mawr, neu'n unigolyn â statws gwleidyddol. Mae UNRHYW UN sy'n gallu ysbrydoli pobl eraill, dylanwadu arnynt, a'u hysgogi i gyrraedd nod cyffredin yn arweinydd; mae llawer ohonom ni yn arwain pobl eraill heb ei sylweddoli!

[2] Collins Dictionary

NODAU

Bydd y diwrnod dysgu hwn yn eich cefnogi i ddod yn fwy mentrus a bydd yn helpu eich mudiad i ddod yn fwy cynaliadwy a hunanddibynnol.

Bydd y diwrnod yn eich helpu i ddatblygu meddylfryd twf ac yn defnyddio dulliau entrepreneuraidd damcaniaethol ac ymarferol i gael cyfranogwyr i ddechrau meddwl am beth mae bod yn fentrus yn ei olygu.

CYNWYS

- Beth a olygwn wrth ddod yn fwy blaengar?
- Y cyd-destun a'r rhesymau pam y mae meddylfryd blaengar yn fanteisiol
- Tybiaethau a meddylfryd arweinydd blaengar
- Model blaengar ar gyfer mudiadau sy'n seiliedig ar werth
- Cydbwyso cynhyrchu incwm ac effaith gymdeithasol
- Archwilio offerynnau twf

CANLYNIADAU DYSGU

Cael dealltwriaeth glir o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn fentrus a sut i ddatblygu meddylfryd mentrus.

Dechrau edrych ar amrediad o adnoddau, technegau a phosibiliadau mentrus ar gyfer eich mudiad.